# Cyhoeddiad Cylchlythyr

## ParentPay – ein system taliad ar-lein newydd

Rydym yn falch i gyhoeddi y byddwn cyn hir yn derbyn pob taliad ar gyfer cinio ac unrhyw dripiau drwy sytem dalu ar-lein. Gan ddefnyddio gwefan ddiogel o'r enw Parentpay, byddwch chi fel rhieni yn talu am bob dim ar-lein drwy gerdyn debyd neu gredyd. ParentPay fydd yr unig ffordd i chi wneud taliadau i'r ysgol o'r 8fed o Ionawr, 2018.

**Beth yw'r manteision i chi fel rhieni ac i'r disgyblion?**

- Mae ParentPay yn hawdd iawn i'w ddefnyddio a bydd yn rhoi'r rhyddid i chi i wneud taliadau ar-lein pryd bynnag neu ble bynnag, 24/7
- Mae'r dechnoleg a ddefnyddir yn hollol ddiogel a fydd yn sicrhau bod eich arian yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel ac yn rhoi tawelwch meddwl i chi.
- Gall taliadau gael eu gwneud drwy gerdyn credyd/debyd neu trwy PayPoint
- Bydd hi'n bosibl i chi weld hanes taliadau a datganiadau llawn yn ddiogel ar-lein ar unrhyw adeg.
- Ni fydd rhaid i'ch plentyn / plant ofidio am golli arian cinio.
- Gallwch ddewis gael eich rhybuddio pan fo eich cyfrif yn isel trwy ebost neu neges destun.

**Beth yw'r manteision i'r ysgol?**

Mae defnyddio ParentPay yn sicrhau bod yr holl drafodion ariannol yn ddiogel ac yn ein helpu i gael gwared ar gostau sy'n gysylltiedig â ni yn gorfod rheoli arian yn ddiogel ar safle'r ysgol.

**Sut i gychwyn gyda ParentPay**




Cyn bo hir byddwn yn danfon llythyr atoch fydd yn esbonio sut i weithredu'r system. Bydd y cyfan yn glir yn y llythyr hwnnw.

Os ydych am ddarganfod mwy am ParenPay ewch i:

**www.parentpay.com/Parents**